



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



CYMWYS AM OES

DEALL Y CYMWYSTERAU NEWYDD YNG NGHYMRO

Pecyn rhieni | Tachwedd 2014

www.cymwysamoes.org.uk

“Ymfalchïaf yn y ffaith fod Cymru’n cynnal trafodaeth genedlaethol ar addysg uwchradd, gan ystyried o ddifrif sut i godi safonau er budd dysgwyr Cymru a’n gwlad.”

Yr Athro Syr Leszek Borysiewicz
Is-ganghellor, Prifysgol Caergrawnt

CYFLWYNIAD

Mae’r canllaw hwn ar gyfer rhieni a gofalwyr myfyrwyr a fydd yn dechrau astudio ar gyfer y cymwysterau newydd mewn ysgolion a cholegau ledled Cymru o fis Medi 2015 ymlaen. Cymwysterau yw’r pasbort i’r dyfodol ar gyfer unrhyw berson ifanc, felly mae’n bwysig bod pawb yn deall beth sy’n digwydd ym myd addysg yng Nghymru a pham yr ydym yn gwneud y gwelliannau hyn.

Mae’r canllaw yn esbonio beth sy’n newid a beth mae hyn yn ei olygu i’ch plant chi. Mae llawer iawn mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Cymwys am Oes yn **www.cymwysamoes.org.uk** ac oddi wrth ysgol neu goleg eich plentyn.

Mae’r llyfryn hwn yn darparu gwybodaeth am y newidiadau i:

- TGAU;
- Safon Uwch;
- Bagloriaeth Cymru;
- cymwysterau galwedigaethol; a’r
- cwricwlwm.

Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth i chi am Gymwysterau Cymru – corff cenedlaethol newydd ar gyfer cymwysterau yng Nghymru.

NEGES GAN Y GWEINIDOG



Rydw i'n dad i ddau o blant oedran ysgol ac yn gyn athro, ac rydw i'n gwybod mai un o'r pethau yr ydych chi'n ei ddymuno fwyaf ar gyfer eich plant yw eu bod yn cael addysg

ardderchog sy'n rhoi'r dechrau gorau posibl iddyn nhw mewn bywyd.

Rydym ni'n awyddus i roi'r sgiliau y mae arnyd nhw eu hangen i'n holl bobl ifanc er mwyn iddynt gael y swydd iawn neu fynd ymlaen i goleg neu brifysgol. Rydym wedi gweithio gyda busnesau, colegau a phrifysgolion i wella cymwysterau yng Nghymru ac i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion ein pobl ifanc ac economi Cymru.

Bydd y cymwysterau newydd yn cymell, gwobrwyo ac adlewyrchu ymdrechion eich plentyn. Bydd cymeradwyo cymhwyster i'w ddefnyddio yng Nghymru yn cael ei gydnabod fel arwydd o ragoriaeth: cymhwyster sy'n cael ei werthfawrogi a'i barchu ac yr ymddiriedir

ynddo gan gyflogwyr a phrifysgolion, nid yn unig yma yng Nghymru a'r DU ond yn rhyngwladol hefyd.

Rydw i'n falch o'n cymwysterau newydd, ac yn teimlo'n gyffrous ynglŷn â'r hyn y bydd ein pobl ifanc yn ei gyflawni yn y blynyddoedd i ddod. Ein pobl ifanc yw ein dyfodol a bydd y cymwysterau hyn yn eu helpu gyda beth bynnag y byddant yn dymuno ei wneud yn eu bywydau ac yn eu galluogi i ddangos beth y maen nhw'n ei wybod a'r hyn y maen nhw'n gallu ei wneud. Dyna beth yr ydym ni, fel rhieni yn ei ddymuno ar gyfer ein plant, a dyna beth y maen nhw'n ei haeddu.

Huw Lewis

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

"Golyga ffocws y cymwysterau newydd hyn bod y dysgu craidd yn fwy cadarn a'u bod hefyd yn fwy deniadol ar gyfer cyflogwyr y dyfodol."

Gary Griffiths

Pennaeth Rhaglen Gyrfaoedd Cynnar, Airbus UK





PAM MAE CYMWYSTERAU'N NEWID?

Roedd hi'r adeg iawn i edrych eto ar gymwysterau ar gyfer ein pobl ifanc i wneud yn siŵr eu bod yn addas i bawb. Cyflwynodd adolygiad annibynnol gan arbenigwyr o ysgolion, colegau, prifysgolion a busnesau nifer o argymhellion ac rydym yn rhoi'r rhain ar waith nawr.

Un o negeseuon cryfaf yr adolygiad oedd yr angen i gryfhau sgiliau iaith a rhif ein plant – llythrennedd a rhifedd. Mae ein cymwysterau newydd yn ymdrin â hyn yn uniongyrchol, gan ganolbwyntio o'r newydd ar y blociau adeiladu hyn ar gyfer gwaith ac astudio pellach.

“Os cawn ni hyn yn iawn, bydd yn rhoi mantais bwysig i Gymru o ran datblygu pobl o'r safon iawn ac sydd â'r tueddfryd priodol ar gyfer trosglwyddo'n llwyddiannus i fyd gwaith.”

Graham Edwards
Prif Swyddog Gweithredol Wales and West
Utilities

“Mae agenda diwygio
Llywodraeth Cymru yn amserol
ac wedi ei seilio ar fyfyrrio.”

Claire Armistead
Pennaeth, Ysgol Uwchradd y Rhyll

TGAU

Mae gwerth cymwysterau TGAU yn cael ei gydnabod a'i ddeall ledled y byd. Felly bydd TGAU yn parhau i fod y prif gymwysterau cyffredinol y bydd pobl ifanc yn eu cwblhau yn 16 oed, ac ni fydd y strwythur graddau cyfarwydd o A* i G yn newid.

Bydd ein cymwysterau TGAU newydd yn heriol, yn drwyadl ac yn uchel eu parch, a bydd ganddynt bwyslais newydd ar lythrennedd a rhifedd.

BETH FYDD YN NEWID O RAN ADDYSGU YM MIS MEDI 2015?

- Bydd cymwysterau TGAU newydd Cymraeg iaith a Saesneg iaith ar gael. Bydd y rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar agweddau ymarferol iaith. Sgiliau darllen, ysgrifennu a llafaredd (siarad a gwranddo) yw'r rhain a byddant i gyd yn cyfrannu at y radd derfynol.
- Bydd dau gymhwyster TGAU newydd mewn mathemateg, a chyda'i gilydd byddant yn cwmpasu cynnwys tebyg i'r cwrs presennol. Bydd y ddau'n canolbwyntio mwy ar ddatrys problemau ac ar ddefnyddio mathemateg mewn sefyllfaoedd byw o ddydd i ddydd. Rydym yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn dilyn y ddau gwrs TGAU mewn mathemateg. Dyma'r ddau:
 - TGAU Mathemateg – Rhifedd, a fydd yn canolbwyntio ar rifedd a'r fathemateg sydd ei hangen arnom yn ein bywydau bob dydd; a

“Mae rhifedd yn bwysicach nag erioed yn y byd corfforaethol heddiw a bydd diwygio'r cwricwlwm mathemateg yn sicrhau bod gan ein pobl ifanc y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer wynebu heriau'r gweithle modern.”

Robert Lloyd Griffiths
Cyfarwyddwr, Sefydliad y Cyfarwyddwyr Cymru

- TGAU Mathemateg, a fydd yn rhoi'r sgiliau mathemategol i bobl ifanc sydd eu hangen arnynt ar gyfer astudiaethau mathemategol, gwyddonol neu dechnegol pellach

Bydd addysgu hefyd yn dechrau ar gyfer cymwysterau TGAU diwygiedig mewn Llenyddiaeth Gymraeg a Llenyddiaeth Saesneg.

Ni fydd unrhyw newidiadau i bynciau TGAU eraill yn ystod 2015.

BETH FYDD YN NEWID O RAN ADDYSGU YM MIS MEDI 2016?

Bydd newidiadau i gymwysterau TGAU yn y pynciau canlynol o 2016 ymlaen, a byddwn hefyd yn adolygu'r holl gymwysterau TGAU mewn gwyddoniaeth.

Addysg Gorfforol; Astudiaethau Crefyddol; Bioleg; Celf a Dylunio; Cemeg; Cerddoriaeth; Daearyddiaeth; Drama; Dylunio a Thechnoleg; Ffiseg; Hanes; Ieithoedd Tramor Modern: Almaeneg, Ffrangeg, Sbaeneg.

SAFON UWCH

Mae'r system Safon Uwch wedi'i hen sefydlu ac ymddiriedir ynddi. Bydd Safon Uwch yn parhau i fod y prif gymwysterau cyffredinol a ddilynir ar Lefel 3 (fel arfer rhwng 16 a 19 oed). I'r graddau y bydd hynny'n bosibl, bydd cymwysterau Safon Uwch yng Nghymru yn rhannu'r un cynnwys â chymwysterau Safon Uwch yn Lloegr. Fodd bynnag, mewn rhai achosion bydd gwahaniaethau'n briodol er mwyn adlewyrchu safbwynt Cymreig.

Bydd cymwysterau Uwch Gyfrannol yn parhau, gan adlewyrchu'r ffaith bod prifysgolion yn credu eu bod yn ddefnyddiol o ran rhagweld graddau Safon Uwch person ifanc, ac mae ysgolion a cholegau'n credu eu bod yn ddefnyddiol o ran cael myfyrwyr i wynebu'r gwirionedd hanner ffordd trwy'r cwrs Safon Uwch.

Rydym yn cyflwyno rhai newidiadau pwysig i gymwysterau Safon Uwch er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn heriol, yn drwyadl ac yn cael eu parchu'n rhyngwladol, a'u bod yn asesu'r sgiliau a werthfawrogir gan gyflogwyr ac eraill.

- Bydd pwysoliad y cymhwyster Uwch Gyfrannol o fewn y cymhwyster Safon Uwch cyflawn yn cael ei leihau o 50% i 40%.
- Bydd asesiadau ymarferol neu asesiadau a reolir yn parhau i gyfrannu at y radd derfynol pan eu bod yn asesu rhan bwysig o'r pwnc. Mewn achosion eraill, gallent gael eu diddymu.

Y PYNCIAU SAFON UWCH A FYDD YN NEWID AR GYFER 2015

- Astudiaethau Busnes
- Bioleg
- Celf a Dylunio
- Cemeg
- Cyfrifiadureg
- Cymdeithaseg
- Cymraeg (iaith gyntaf)
- Economeg
- Ffiseg
- Hanes
- Iaith a Llenyddiaeth Saesneg
- Llenyddiaeth Saesneg
- Saesneg iaith
- Seicoleg

Y PYNCIAU SAFON UWCH A FYDD YN NEWID AR GYFER 2016

- Addysg Gorfforol
- Astudiaethau Crefyddol
- Cerddoriaeth
- Cymraeg Ail Iaith
- Daeryddiaeth
- Drama
- Dylunio a Thechnoleg
- Ieithoedd Tramor Modern: Almaeneg, Ffrangeg, Sbaeneg
- Mathemateg
- Mathemateg Bellach

“Gwerthfawrogn yn fawr y penderfyniad i gadw'r cymhwyster Safon Uwch Gyfrannol yng Nghymru yn rhan hanfodol o drefn cymwysterau Safon Uwch.”

Yr Athro Syr Leszek Borysiewicz,
Is-ganghellor, Prifysgol Caergrawnt



BAGLORIAETH CYMRU

Mae Bagloriaeth Cymru yn newid a bydd yn cael ei chyflwyno i ddysgwyr pan fyddant rhwng 14 a 19 oed o fis Medi 2015 ymlaen.

Bydd Bagloriaeth Cymru ar ei newydd gwedd yn helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer addysg uwch, byd gwaith a bywyd. Bydd yn cael ei hastudio ynghyd â dewisiadau traddodiadol TGAU, Safon Gyfrannol a Safon Uwch dysgwyr neu ar y cyd â chymwysterau galwedigaethol.

Bydd Bagloriaeth Cymru ar ei newydd gwedd yn canolbwyntio'n glir ar y sgiliau canlynol.

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn feiriadol a datrys problemau
- Cynllunio a threfnu
- Creadigrwydd ac arloesi
- Effeithiolrwydd personol

Bydd dysgwyr yn datblygu ac yn defnyddio'r sgiliau hyn, a bydd y sgiliau'n cael eu hasesu trwy gwblhau prosiect unigol a thair 'her'.

- Her dinasyddiaeth fyd eang
- Her fenter a chyflogadwyedd
- Her gymunedol

Rydym wedi cyflwyno graddio er mwyn cryfhau'r cymhwyster ac er mwyn gwobrwyo myfyrwyr sy'n cyrraedd safon uchel yn briodol.

PAM Y DYLAI DYSGWYR ASTUDIO BAGLORIAETH CYMRU?

Mae Bagloriaeth Cymru eisoes yn uchel ei pharch ac yn cael ei derbyn gan brifysgolion ledled y DU fel cymhwyster ar gyfer mynediad. Cafodd ei chynllunio i helpu dysgwyr 14 i 19 oed i ddatblygu'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt ar gyfer y coleg, y brifysgol, byd gwaith a bywyd.

Trwy lwyddo i gwblhau Bagloriaeth Uwch Cymru, bydd dysgwyr yn ennill cymhwyster sydd yr un faint â chymhwyster Safon Uwch ac yn cael ei raddio yn yr un modd (A* i E). Mae Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS) yn disgwyl dosbarthu'r un pwyntiau tariff iddo ag i gymhwyster Safon Uwch – gyda nifer y pwyntiau a ddsosberthir ar gyfer pob gradd yr un faint ag ar gyfer y radd Safon Uwch gyfwerth.

“Mae Bagloriaeth Cymru'n cyflwyno cyfle gwirioneddol i fod wrth graidd system cymwysterau Cymru, i fod yn rhywbeth sy'n ysbrydoli dysgwyr i wella eu sgiliau cyflogadwyedd, a'u gwneud yn fwy parod ar gyfer bywyd yn gyffredinol ac yn eu galluogi i gyflawni hyd eithaf eu gallu”

Scott Waddington, Prif Weithredwr, SA Brain

Nid yw pob prifysgol na choleg yn defnyddio pwyntiau tariff yn eu gofynion ar gyfer mynediad. Yn hytrach, maen nhw'n disgrifio eu gofynion yn nhermau cymwysterau, pynciau a graddau. Mae prifysgolion a cholegau yn sefydliadau annibynnol ac maen nhw'n gosod eu gofynion mynediad eu hunain.

BETH SYDD EI ANGEN I DDYSGWYR EI WNEUD I GAEL BAGLORIAETH CYMRU?

Bydd angen i ddysgwyr gwblhau prosiect unigol a thair her yn llwyddiannus er mwyn llwyddo i gael Bagloriaeth Cymru.

Bydd hefyd angen i ddysgwyr ddangos bod ganddynt sgiliau llythrennedd a rhifedd trwy gael cymhwyster TGAU Cymraeg Iaith neu Saesneg Iaith a TGAU Mathemateg – Rhifedd.

Bydd arnynt angen digon o gymwysterau ategol hefyd, er enghraifft cymwysterau TGAU eraill; cymwysterau Safon Uwch/ Safon Uwch Gyfrannol; cymwysterau galwedigaethol (ewch i www.cbac.co.uk i weld y gofynion penodol ar gyfer pob lefel).

“O’n safbwynt ni, rydym yn disgwyl i’r myfyrwyr sy’n dod i Rydychen allu meddwl yn annibynnol, i fod yn frwd dros y pynciau y maent yn bwriadu eu hastudio a hefyd i fod yn barod i fod yn hyblyg. Credaf yn bendant y bydd system gymwysterau newydd Cymru, ac yn arbennig Bagloriaeth Cymru ar ôl ei chryfhau a newid ei phwyslais, yn helpu i ddatblygu myfyrwyr i’r cyfeiriad hwnnw.”

Dr Samina Khan

Cyfarwyddwr Dros Dro Derbyn Israddedigion ac Allgymorth, Prifysgol Rhydychen

PRYD MAE POBL IFANC YN ASTUDIO BAGLORIAETH CYMRU?

Bydd gan Fagloriaeth Cymru gymwysterau ar dair lefel – sydd wedi’u cynllunio ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed.

Teitl y cymhwyster	Lefel	Graddau sydd ar gael	Oedran y dysgwyr	Cymhwyster cyfwerth
Bagloriaeth Cymru – Lefel Sylfaen	Lefel 1	Pasio* a Phasio	14 i 16 ac ôl-16	Un TGAU
Bagloriaeth Cymru – Lefel Genedlaethol	Lefel 2	A*, A, B ac C	14 i 16 ac ôl-16	Un TGAU
Bagloriaeth Cymru – Lefel Uwch	Lefel 3	A*, A, B, C, D ac E	Ar ôl 16 yn unig	Un Safon Uwch



CYMWYSTERAU GALWEDIGAETHOL

Mae cymwysterau galwedigaethol yn rhoi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau, ac mewn rhai achosion, y sgiliau gwaith perthnasol i bobl ifanc allu gweithio mewn sector neu swydd arbennig. Mae llawer o gymwysterau galwedigaethol yn cael eu cynnig yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a bydd hynny'n parhau. Mae hyn yn golygu y bydd llawer o gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru yn cyfateb yn union i'r rhai a gaiff eu dyfarnu yn Lloegr.

BETH SY'N NEWID O RAN CYMWYSTERAU GALWEDIGAETHOL YNG NGHYMURU?

Mae pob cymhwyster galwedigaethol yng Nghymru wedi ei ddsbarthu yn un o'r canlynol, yn unol â'r drefn yng ngweddill Ewrop.

- Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Cychwynnol (IVETs) (cymwysterau cychwynnol, sy'n addas ar gyfer pob oedran).
- Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Parhaus (CVETs) (cymwysterau parhaus sy'n gysylltiedig â sgiliau swyddi, ac sy'n addas ar gyfer dysgwyr dros 16 oed).

Dim ond IVETs sy'n addas ar gyfer pobl sy'n iau na 16 oed, ond gellir defnyddio IVETs a CVETs ar gyfer dysgwyr sy'n 16 oed a hŷn.

Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pobl ifanc yn dilyn cymwysterau sy'n briodol i'w hoedran a'u cam dysgu, a'u bod yn cael cyflwyniad i sector neu bwnc cyn symud ymlaen i gymwysterau sy'n seiliedig ar sgiliau gwaith.

Bydd paneli newydd o arbenigwyr ym mhob sector economaidd yn rhoi cyngor ynglŷn â datblygu a chymeradwyo cymwysterau galwedigaethol er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r wybodaeth a sgiliau cywir i bobl ifanc ar gyfer cael swydd, ac yn eu helpu i fynd ymlaen i astudio ymhellach neu i ymuno â'r byd gwaith.

"Rydym yn croesawu dosbarthu'r IVET/CVET. Cymwysterau Cymru yw ceidwad cymwysterau galwedigaethol y dyfodol a bydd yn sicrhau bod darpariaeth alwedigaethol yn bodloni anghenion Cymru."

Arwyn Watkins, Prif Weithredwr Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a Rheolwr-Gyfarwyddwr Cambrian Training Ltd

Y CWRICWLWM

Rydym yn sefydlu cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru, ac mae adolygiad annibynnol o'r hyn mae eich plant yn ei ddysgu yn yr ysgol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Disgwylir i'r Athro Graham Donaldson gyflwyno adroddiad tua diwedd 2014.

Er mwyn sefydlu'r elfennau sylfaenol, rydym yn cyflwyno rhaglenni newydd ar gyfer addysgu Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg ym mis Medi 2015. Bydd y rhain yn sicrhau bod eich plentyn yn dysgu'r pethau cywir er mwyn gwneud cynnydd bob blwyddyn yn eu sgiliau rhif, darllen ac ysgrifennu.

Mae hyn i gyd yn cyd-fynd â'n Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh) newydd - ffordd newydd i athrawon, rhieni a gofawyr sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo.

CYMWYSTERAU CYMRU

Yn 2015, bydd corff cenedlaethol ar gyfer cymwysterau yng Nghymru yn cael ei sefydlu, o'r enw Cymwysterau Cymru. Bydd Cymwysterau Cymru yn annibynnol ar y Llywodraeth a bydd yn gyfrifol am reoleiddio a chynnal ansawdd y cymwysterau, ac mewn rhai achosion, am gomisiynu datblygiad cymwysterau newydd. Bydd yn sicrhau bod ein cymwysterau ni yn cael eu parchu'n rhyngwladol a bod ein dysgwyr yn cael eu hymestyn a'u herio gan ein system gymwysterau. Ei brif nodau fydd sicrhau:

- bod cymwysterau yng Nghymru yn addas i'w diben;
- bod y system gymwysterau yng Nghymru yn effeithlon ac effeithiol; a
- bod gan y cyhoedd hyder yng nghymwysterau Cymru.

“Dyma gyfle euraidd i Gymru: does dim byd yn bwysicach nag addysg, cydnabyddiaeth a chyrhaeddiad ein pobl ifanc. Mae gennym gyfle unigryw yn awr i sefydlu system gadarn ac arloesol o gymwysterau ar gyfer Cymru.”

Yr Athro April McMahon

Is-ganghellor Prifysgol Aberystwyth

ISBN: 978-1-4734-2436- 4

I gael mwy o wybodaeth ewch i:
www.cymwysteraucymru.org